Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar ansawdd dysgu oedolion yn y gymuned

ym

Mhartneriaeth Ddysgu Abertawe

Darparwr arweiniol:
Dinas a Sir Abertawe
Y Ganolfan Ddinesig
Ffordd Ystumllwynarth
Abertawe
SA1 3SN

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2009

Dyddiad cyhoeddi: 24 Chwefror 2010

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Investors in People | Buddsoddwyr mewn Pobl

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y bartneriaeth a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Gradd	**Yr hyn mae'r radd yn ei olygu**
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer flaenllaw yn y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Cryfderau yn gorbwyso meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso cryfderau

Mae adroddiadau Estyn yn dilyn ei arweiniad ar gyfer ysgrifennu a golygu adroddiadau, sydd ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk). Mae'r tabl isod yn dangos y termau y mae Estyn yn eu defnyddio a syniad bras o'u hystyr. Mae'r tabl er arweiniad yn unig.

Bron pob un	gydag ychydig iawn o eithriadau
Y rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	dros 60%
Hanner/tua hanner	yn agos at 50%
Lleiafrif	islaw 40%
Ychydig	islaw 20%
Ychydig iawn	llai na 10%

Cyd-destun

Mae'r adran hon yn defnyddio gwybodaeth ystadegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ar gyfer yr arolygiad hwn.

Mae ardal Dinas a Sir Abertawe yn ymestyn o ddinas Abertawe i Fro Gŵyr, ac i fyny i Gwm Tawe, sy'n cynnwys trefi Gorseinon, Pontarddulais, Treforys a Chlydach. Mae poblogaeth o ryw 227,100 o drigolion. Mae llawer o'r ardal wedi dioddef yn sgil dirywiad diwydiannol yn y degawdau diwethaf ac mae gan 10 o wardiau Dinas a Sir Abertawe statws Cymunedau yn Gyntaf. Mae cyfraddau diweithdra yn Abertawe yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 5.3%. Fodd bynnag, nid oes gan 14.5% o'r boblogaeth unrhyw gymwysterau. Mae tua 13% o'r bobl sy'n byw yn yr ardal yn siarad Cymraeg ac mae nifer gynyddol o bobl (tua 2.2%) o grwpiau diwylliannol eraill yn yr ardal.

Awdurdod Lleol Abertawe yw'r prif ddarparwr ar gyfer Partneriaeth Ddysgu Abertawe (PDdA). Mae darparwyr pwysig eraill sy'n aelodau o PDdA yn cynnwys colegau Gorseinon ac Abertawe, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (De) a'r ddwy brifysgol leol.

Crynodeb

Barn gyffredinol ar ddarpariaeth y bartneriaeth	**Da**
Rhagolygon gwella	**Rhagorol**

Barn gyffredinol

Mae hon yn ddarpariaeth bartneriaeth dda oherwydd;

- bod dysgwyr yn cyflawni safonau da o ran cael credydau ac yn cwblhau eu cyrsiau yn llwyddiannus;
- mae llawer o diwtoriaid yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddatblygu'r defnydd o gynlluniau dysgu unigol gyda dysgwyr; ac
- mae dysgwyr ar draws ystod oedran eang yn gwneud defnydd da o sesiynau i wella eu hunanhyder yn ogystal â'u medrau dysgu. Mae dysgwyr hŷn hefyd yn defnyddio eu sesiynau dysgu yn dda i barhau i gymryd rhan yn eu bywyd cymunedol lleol.

Rhagolygon gwella

Mae gan y bartneriaeth hon ragolygon gwella rhagorol oherwydd:

- y weledigaeth ragorol a'r arweinyddiaeth gref gan grŵp llywio Rhwydwaith Dysgu Abertawe a'i syniadau creadigol ynglŷn â sut i recriwtio grwpiau o ddysgwyr nad oes digon o gynrychiolaeth ohonynt i ddysgu;
- y gwaith partneriaeth rhagorol, rhagweithiol ar lefel strategol sy'n sicrhau cyllid allanol sy'n cefnogi gwaith gyda grwpiau o ddysgwyr wedi'u targedu;
- hanes llwyddiannus iawn dros gyfnod o 10 mlynedd sydd wedi arwain at ddull strategol ar y cyd ar gyfer cyflwyno darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn yr ardal a dealltwriaeth ragorol o arweinyddiaeth gymunedol;
- defnydd da iawn o brofiad ac arbenigedd sydd eisoes yn bodoli i ymateb yn dda i heriau newydd; a
- bod systemau a strwythurau da ar waith i 'wrando ar ddysgwyr' sy'n helpu dysgwyr i ddylanwadu ar gynllunio a chyflwyno'r ddarpariaeth.

Argymhellion

Mae arolygwyr wedi cytuno gyda'r bartneriaeth ar yr argymhellion canlynol ar gyfer gwella:

A1 dylai rheolwyr strategol gyfleu'r weledigaeth a'r strategaeth yn gliriach i staff ar bob lefel fel bod pob un o'r staff yn fwy ymwybodol o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i ysgogi newid a gwella darpariaeth; ac

A2 mae angen i'r bartneriaeth wella'r trefniadau ar gyfer:

- cofrestru dysgwyr i wneud yn siŵr bod y dysgwyr hynny sydd, er enghraifft, yn rhieni ifanc, neu ag anabledd, yn cael hawl gyfartal i wasanaethau;
- trefnu bod cyngor ac arweiniad diduedd ar gael i wneud yn siŵr bod pob dysgwr yn astudio ar y lefel gywir;
- hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg mewn dosbarthiadau; a
- rhannu arfer dda ar draws y bartneriaeth gyfan mewn datblygu'r defnydd o gynlluniau dysgu unigol (CDUau).

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y bartneriaeth yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd arolygydd cyswllt Estyn ar gyfer yr ardal yn monitro cynnydd y bartneriaeth yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad arolygu. Bydd gofyn hefyd i'r bartneriaeth roi manylion i'r arolygiaeth am ei harfer ragorol i'w lledaenu ledled Cymru.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?	**Da**

Safonau: Da

Mae nifer y dysgwyr ar draws Partneriaeth Ddysgu Abertawe (PDdA) sy'n cael credydau ac yn cwblhau eu cyrsiau yn llwyddiannus yn gyffredinol dda neu'n rhagorol ym mhob maes pwnc, gan gynnwys ASO a SSIE. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau rhwng darparwyr o fewn y bartneriaeth ac nid yw pob un o'r dysgwyr yn gwneud cystal â'i gilydd mewn cyrsiau sydd â chredydau. Ar gyfer cyrsiau nad oes ganddynt gredydau, mae'r gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau arni yn dda bron ym mhob achos.

Yn y sesiynau a gafodd eu samplu yn ystod yr arolygiad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da iawn yn eu dysgu. Mae llawer o ddysgwyr yn

datblygu medrau dysgu annibynnol da ac mae lleiafrif o ddysgwyr yn datblygu eu medrau mewn ymchwil a datrys problemau yn dda.

Mae lleiafrif o ddysgwyr yn defnyddio'r credydau y maent yn eu hennill i fynd ymlaen i gyrsiau lefel uwch. Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n mynd ymlaen i addysg uwch. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr nad ydynt yn cael credydau am eu cyrsiau, yn gwneud cynnydd da mewn datblygu eu medrau dysgu. Mae tua hanner o'r holl ddysgwyr yn defnyddio eu medrau newydd yn dda iawn mewn lleoliadau teuluol, hamdden, gwaith a chymunedol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio eu cynlluniau dysgu unigol (CDUau) yn dda i gofnodi ac olrhain eu dysgu. Mae gan fwyafrif o ddysgwyr CDUau da gyda thargedau unigol. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn adolygu eu cynlluniau dysgu yn dda. Mae gan ddysgwyr ASO a SSIE dargedau tymor byr da i wella eu medrau hanfodol. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddysgwyr mewn meysydd pwnc eraill sy'n nodi unrhyw dargedau ar gyfer datblygu eu medrau mewn llythrennedd a rhifedd. Nid yw ychydig iawn o ddysgwyr SSIE yn adolygu eu medrau yn ddigon aml i olrhain eu cynnydd eu hunain yn effeithiol. Mewn ychydig iawn o achosion, mae dysgwyr yn defnyddio RARPA[1] yn dda i gefnogi datblygiad eu medrau.

Lles: Da

Mae pob un o'r dysgwyr yn frwdfrydig ynglŷn â'u dysgu. Mae presenoldeb mewn dosbarthiadau yn gyson uchel. Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r dysgwyr a siaradodd gyda'r tîm arolygu nodi eu llwyddiant a'u cyflawniadau yn glir ers dod i sesiynau. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau eu profiad dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymuno mewn sesiynau yn dda ac yn meddwl bod gwersi yn hwyl ac yn ddiddorol. Mae llawer o ddysgwyr yn rhannu eu profiadau dysgu ac yn cefnogi ei gilydd yn eu sesiynau yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau yn enwebu cynrychiolydd o blith y dysgwyr. Mae'r cynrychiolwyr hyn yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd fforwm dysgwyr PDdA i gyflwyno barn dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau am eu cyrsiau i wella profiad y dysgwr. Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio'r medrau a ddysgwyd mewn sesiynau i gymryd rhan yn llwyddiannus mewn gweithgareddau cymunedol ac maent yn cefnogi digwyddiadau lleol yn dda. Mae nifer fach iawn o ddysgwyr yn gwneud defnydd da o'r medrau a ddysgwyd mewn dosbarthiadau i ddechrau dosbarthiadau anffurfiol yn eu cymunedau.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	**Da**

Profiadau dysgu: Da

Mae PDdA yn darparu ystod dda o gyrsiau. Mae'n rhoi ystyriaeth dda i gyd-destun lleol anghenion y dysgwr yn yr ardal. Mae darpariaeth y bartneriaeth yn diwallu

[1] Dull a gydnabyddir yn genedlaethol o adnabod a chofnodi cyflawniad blaenorol yw RARPA. Gallai hyn gynnwys credydau a gyflawnwyd yn y gorffennol, dysgu anachrededig neu fedrau arwyddocaol eraill.

anghenion amrywiol ystod eang o ddysgwyr yn dda. Mae'r cyrsiau a'r sesiynau a gynigir yn galluogi oedolion sy'n ddysgwyr yn y gymuned i ddewis a ydynt yn dymuno cael credyd neu astudio ar gyfer eu datblygiad a'u lles personol eu hunain heb fwriadu cael credyd.

Mae'r bartneriaeth yn defnyddio data yn dda i wneud yn siwr bod pob darparwr yn cael gwybodaeth gyfoes am y cyrsiau sydd ar gael ym mha leoliad ar draws y bartneriaeth. Mae hyn yn helpu'r bartneriaeth i nodi ble mae bylchau yn y ddarpariaeth. Mae hefyd yn atal dyblygu.

Er mwyn datblygu'r cynhwysedd i ddarparu cyrsiau newydd, mae'r bartneriaeth wedi annog rhai dosbarthiadau i ddod yn grwpiau dysgu hunangyfeiriol. Mae'r bartneriaeth yn parhau i roi cymorth da i'r dysgwyr hyn trwy ddarparu lleoliadau a chymorth TG am ddim. Mae'r dysgwyr mewn dosbarthiadau hunangyfeiriol yn cynllunio eu rhaglenni a'u digwyddiadau dysgu eu hunain yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio'n dda i ymdrin ag ystod o fedrau hanfodol yn eu sesiynau, yn dibynnu ar natur y dosbarth a'r sesiwn. Mewn medrau sylfaenol, mae tiwtoriaid yn mynd ati'n dda i roi dysgu yn ei gyd-destun i ennyn diddordeb dysgwyr a'u cymell. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae tiwtoriaid yn helpu dysgwyr i ddatblygu hyder ac maent yn hyrwyddo dysgu llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw tiwtoriaid bob amser yn gwneud yn siwr bod dysgwyr yn nodi unrhyw dargedau tymor byr mewn llythrennedd a rhifedd y gallent fod yn dymuno eu hychwanegu at eu nodau dysgu personol yn eu CDUau.

Mae llawer o diwtoriaid ar draws yr ystod o gyrsiau yn helpu dysgwyr i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Maent yn trafod materion fel effaith cerbydau modur ar yr hinsawdd, y milltiroedd awyr y mae bwyd yn teithio, medrau crefft mewn gwledydd sy'n datblygu a sut i ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithlon.

Addysgu: Da

Mewn sesiynau a gafodd eu samplo gan y tîm arolygu, barnwyd bod llawer ohonynt yn dda ac roedd rhai yn rhagorol. Ni farnwyd bod unrhyw sesiynau a gafodd eu samplo yn anfoddhaol. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio sesiynau yn dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio ystod dda o strategaethau i ennyn diddordeb dysgwyr a'u cymell. Mae sesiynau yn cynnwys nodau clir ac mae mwyafrif y tiwtoriaid yn gwahaniaethu rhwng yr amcanion dysgu yn dda iawn i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi cymorth a her unigol da i helpu dysgwyr i gyrraedd eu nodau dysgu personol. Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn darparu ystod eang o adnoddau ar gyfer dysgwyr, neu'n eu cyfeirio tuag atynt, gan gynnwys gwefannau lle gall dysgwyr ymchwilio i'r pwnc ymhellach y tu allan i'r dosbarth.

Mae tiwtoriaid wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddatblygu CDUau sy'n gweddu orau i'r pwnc y maent yn ei addysgu. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn trafod cynnydd dysgwyr gyda nhw yn rheolaidd. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn dda i gynllunio sesiynau pellach ac maent yn sicrhau bod dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau y dyfernir credyd arnynt yn cael cyfleoedd sy'n gweddu i lefel y dysgu i ennill y credydau ar y

lefel gywir. Ar y rhan fwyaf o gyrsiau lle na ddyfernir credyd, mae tiwtoriaid yn defnyddio CDUau yn dda i helpu dysgwyr i ymgysylltu â'u dysgu a gwneud cynnydd. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw cynlluniau yn ddigon unigol i alluogi dysgwyr i fesur y cynnydd y maent wedi'i wneud.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae ystod dda iawn o adnoddau ar gael i gyfeirio dysgwyr at ffynonellau cyngor ac arweiniad. Mae tiwtoriaid unigol yn rhoi trosolwg da i ddysgwyr o lwybrau dilyniant ar gyfer eu maes pwnc mewn sesiynau dosbarth. Fodd bynnag, nid yw'n hawdd i ddysgwyr ganfod drostynt eu hunain a chael dealltwriaeth glir o'r ystod lawn o ddarpariaeth sydd ar gael iddynt. Nid oes unrhyw gyfarfodydd rhwydwaith i drafod materion yn ymwneud â chyngor ac arweiniad diduedd.

Mae llawer o gyrsiau'n canolbwyntio'n dda ar agweddau ar iechyd a lles. Mae dysgwyr ifanc sydd dan anfantais gymdeithasol yn datblygu medrau da mewn paratoi bwyd maethlon ar gyllideb, ac maent hefyd yn datblygu medrau dysgu annibynnol da ac yn gwella eu hyder i weithio gydag eraill. Mae llawer o ddysgwyr hŷn yn elwa'n fawr ar symbyliad dysgu, y cyfle i gymdeithasu a gwneud ffrindiau newydd sydd â diddordebau tebyg.

Mae gan y darparwyr yn y bartneriaeth bolisïau a gweithdrefnau diogelu priodol. Mae gan y darparwyr bolisïau a systemau priodol i adolygu ac adnewyddu gwiriadau'r SCT.

At ei gilydd, mae systemau da ar waith i ganfod a oes gan ddysgwyr anghenion dysgu ychwanegol. Mae darparwyr yn dadansoddi pa ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol adeg cofrestru ac yn mynd i'r afael â'r anghenion hyn trwy ymgorffori addysgu medrau sylfaenol yn effeithiol yn y ddarpariaeth, er enghraifft. Mae darparwyr hefyd yn dyrannu adnoddau fel sgriniau mawr ac offer arbenigol arall fel y bo'n briodol. Mae hyn yn cymharu'n dda ag arferion mewn partneriaethau eraill.

Amgylchedd dysgu: Da

At ei gilydd, mae tiwtoriaid yn rhoi sylw da i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae llawer o diwtoriaid yn helpu dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth well o amrywiaeth trwy'r cynnwys a'r gweithgareddau y maent yn eu defnyddio yn y dosbarth. Mae yna siarter dysgwyr sy'n amlinellu disgwyliadau clir y gall y dysgwr eu cael o'r gwasanaeth a chyfrifoldebau'r gwasanaeth a'r dysgwr. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae'r dysgwyr yn ymwybodol o'r siarter dysgu yn amrywio gormod.

Mae llawer mwy o bobl sy'n dymuno gwneud cais ar gyfer dosbarthiadau na'r dosbarthiadau sydd ar gael. I gofrestru ar gwrs, mae PDdA yn gweithredu system 'cyntaf i'r felin' er mwyn sicrhau cyfle cyfartal. Rhaid i ddysgwyr gofrestru yn bersonol. Mae hyn yn golygu bod rhai dysgwyr yn cael eu rhoi dan anfantais yn anfwriadol os na allant fynychu ar y diwrnod ymrestru.

Mae safon yr adeiladau yn y rhan fwyaf o leoliadau'r ddinas yn dda, gyda mynediad da. Nid yw'r gwresogi mewn rhai lleoliadau mwy gwledig yn ddigon cynnes ar ddiwrnodau oer. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn barod i oddef hyn

gan fod y lleoliadau'n agos at eu cartrefi. Mae lefel dda o adnoddau ar gael i diwtoriaid a dysgwyr. Mae ansawdd yr adnoddau yn dda ar y cyfan.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	**Da**

Arweinyddiaeth: Da

Mae rheolwyr strategol yn gosod gweledigaeth a gwerthoedd clir iawn ar gyfer y ddarpariaeth. Maent yn gwneud cysylltiadau da ag anghenion dysgu, cymdeithasol ac economaidd dysgwyr a chymunedau yn Abertawe. Mae uwch swyddogion o bob darparwr yn rhoi cyfeiriad strategol da ar gyfer PDdA. Maent yn rhoi strwythur a chylch gwaith da a phriodol ar waith i gynllunio a chyflwyno dysgu oedolion yn y gymuned yn yr ardal. Mae'r Cynllun Datblygu Ansawdd ar y cyd a chynlluniau strategol darparwyr unigol yn dangos ymrwymiad i ddiwallu anghenion dysgwyr.

Fodd bynnag, nid yw rheolwyr bob amser yn sicrhau bod y strategaeth a'r polisi yn glir i diwtoriaid. Yn ychwanegol, nid yw rheolwyr bob amser yn cyfleu gwybodaeth mewn modd digon clir neu amserol fel bod dysgwyr yn gwybod pa ddarpariaeth sydd ar gael a sut y gallant ei defnyddio.

Mae nodau ac amcanion y bartneriaeth, a amlinellir yn y prif ddogfennau strategol, yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn dda. Mae rheolwyr strategol wedi ymateb yn dda i gynyddu cyfranogiad mewn dysgu.

Mae gan aelodau etholedig, llywodraethwyr ac aelodau bwrdd wybodaeth dda am anghenion a darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Mae gan bob un o'r rheolwyr draddodiad cryf o gydweithio, ac ymrwymiad iddo, er mwyn cael gwared ar gystadleuaeth, ac maent wedi gwneud hyn ers sawl blwyddyn. Mae pob darparwr yn ymwneud â'r cwricwlwm a'r grŵp ansawdd i reoli gwaith PDdA.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r staff yn y swyddi uwch o bob un o'r darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned mwyaf yn Abertawe yn ymwneud â grŵp llywio PDdA. Mae hyn yn cynnwys darparwyr addysg bellach, yr awdurdod lleol, y sector gwirfoddol a darparwyr addysg uwch. Mae PDdA yn cysylltu'n dda â Phartneriaeth Gwell Abertawe sy'n goruchwylio Strategaeth Ddysgu Pob Oedran ar gyfer Abertawe. Hwn hefyd yw Bwrdd Gwasanaethau Lleol[2] Abertawe. Mae hyn yn golygu bod dull cyffredinol da iawn ar gyfer datblygu pob agwedd ar addysg a hyfforddiant yn yr ardal. Er enghraifft, mae strategaeth ddysgu a pholisi PDdA yn cysylltu'n dda â strategaeth adfywio economaidd y cyngor. Mae PDdA hefyd wedi buddsoddi'n helaeth mewn isadeiledd TGCh i gynyddu cyfleoedd e-ddysgu i weithio tuag at fodloni amcan economaidd yr Undeb Ewropeaidd sy'n seiliedig ar wybodaeth. Mae rheolwyr yn monitro ac yn adrodd cynnydd yn erbyn gweithredoedd yng Nghynllun Datblygu Ansawdd y bartneriaeth a chynlluniau gwasanaeth unigol yn rheolaidd ac yn dda. Mae pob un o'r darparwyr yn cysylltu eu cynlluniau â blaenoriaethau strategol yn dda. Mae gan

[2] Byrddau Gwasanaeth Lleol (BGLlau) yw pan fydd arweinwyr sefydliadau cyhoeddus lleol a sefydliadau'r trydydd sector yn dod at ei gilydd i weithredu ar y cyd i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar y dinesydd.

bob darparwr systemau unigol ar waith i adolygu perfformiad staff unigol. Fodd bynnag, nid yw pob rheolwr yn gosod targedau ac yn adolygu systemau yn ddigon trylwyr, ac nid ydynt yn gwneud cysylltiadau digon cryf â chynlluniau strategol cynllun gweithredu'r bartneriaeth ym mhob achos.

Gwella ansawdd: Da

At ei gilydd, mae hunanasesu PDdA yn dda. Fodd bynnag, mewn nifer fach o achosion, nid yw'r gweithredoedd a'r targedau mewn cynlluniau yn ddigon trylwyr i ymdrechu am ragoriaeth. Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda i annog dysgwyr i ddod yn rhan o fforwm y dysgwyr. Mae dysgwyr a gafodd eu cyfweld yn ystod yr arolygiad yn teimlo bod y bartneriaeth yn ystyried eu barn. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau partneriaeth ar gyfer gwrando ar ddysgwyr SSIE yn ddigon effeithiol bob amser.

At ei gilydd, mae'r CDA ar y cyd yn ddogfen dda a defnyddiol. Mae'n mynd i'r afael â chyfyngiadau o ran defnyddio a dadansoddi data rhwng darparwyr. Mae'n nodi'n gywir nad oes digon o staff Cymraeg i ddiwallu anghenion cenedlaethol a lleol dysgu.

Mae gan diwtoriaid wybodaeth bynciol dda ac mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid gymwysterau da i addysgu. At ei gilydd, rhoddir cyfleoedd da i diwtoriaid ddiweddaru eu medrau a dysgu am fentrau newydd.

Mae PDdA wedi gwneud trefniadau da ar gyfer cyfarfodydd tymhorol i staff rannu arfer dda. Mae hyn wedi arwain at wella ansawdd mewn meysydd pwnc.

Rheoli adnoddau: Rhagorol

Mae PDdA yn gwneud defnydd rhagorol o gyllid allanol i wella'r ddarpariaeth gyffredinol. Yn benodol, mae prosiect Sgiliau Abertawe a phrosiect Eastside Abertawe wedi cyfrannu'n sylweddol at wella'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgu a gwella medrau i helpu dysgwyr i gael gwaith a gwella eu bywydau bob dydd.

Mae gan y bartneriaeth hanes llwyddiannus iawn o ddefnyddio dull strategol effeithiol ar gyfer manteisio ar adnoddau o ystod eang o ffrydiau cyllid er lles y rhaglen yn gyffredinol. Er enghraifft, maent yn defnyddio amrywiaeth eang o grantiau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd yn dda iawn i dargedu dysgwyr sydd â medrau sylfaenol gwael.

Mae ansawdd y deilliannau ar gyfer dysgwyr a'r ffaith fod cyllid allanol yn cael ei reoli'n rhagorol yn arwain at ddarparu gwerth da am arian.

Tabl barnau o Ffurflenni Arfarnu (FfAau)

Canrannau'r barnau ar gyfer **safonau** a gofnodwyd ar Ffurflenni Arfarnu (FfAau)

CwA1	Rhagorol	Da	Digonol	Anfoddhaol
Canran	14%	72%	14%	0

Canrannau'r barnau a gofnodwyd ar gyfer **addysgu neu hyfforddi** ar Ffurflenni Arfarnu (FfAau)

CwA2	Rhagorol	Da	Digonol	Anfoddhaol
Canran	17%	79%	4%	0

Atodiad 1

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Cafodd holiaduron eu llenwi gan ryw 12% o ddysgwyr. Fe wnaeth tua 450 o ddysgwyr gymryd rhan. Llenwodd dysgwyr holiaduron yn wirfoddol ac fe wnaethant eu cwblhau yn ystod wythnos gyntaf Tachwedd 2009. Gofynnodd Estyn i ddarparwyr Rhwydwaith Dysgu Abertawe gynnwys ystod o'u dysgwyr o'u darpariaeth gyfredol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n gadarnhaol ac yn mwynhau eu profiadau dysgu. Byddai bron pob un o'r dysgwyr yn argymell eu profiad dysgu i bobl eraill. Mae llawer o ddysgwyr yn credu bod eu profiad dysgu yr un fath â'r disgwyl ac mae mwyafrif o ddysgwyr yn teimlo eu bod yn gwneud cynnydd yn eu dysgu.

Dywed tua hanner y dysgwyr fod eu cyrsiau wedi cynnig cyfleoedd iddynt wella eu darllen, eu hysgrifennu, eu defnydd o rif neu dechnoleg gwybodaeth.

Dywed mwyafrif o ddysgwyr eu bod yn cael cymorth neu gwnsela personol da, gyda llawer o ddysgwyr yn nodi eu bod yn cael cyngor ac arweiniad annibynnol da am eu camau nesaf. Mae llawer o ddysgwyr yn gwybod ble i fynd os oes ganddynt broblem neu'n dymuno gwneud cwyn.

Mae tua hanner y dysgwyr yn credu bod digon o adnoddau a chyfleusterau lleol i'w helpu i ddysgu. Dywed llawer o ddysgwyr eu bod yn trosglwyddo'r medrau a'r wybodaeth a ddysgwyd yn y dosbarth i weithgareddau cymunedol neu i wirfoddoli.

Lleiafrif o ddysgwyr yn unig sy'n cael cyfleoedd i weithio gyda darparwyr i gynllunio eu rhaglenni dysgu ac mae nifer fach o ddysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghori a'r penderfyniadau a wneir am eu darpariaeth ddysgu.

Atodiad 2

Y tîm arolygu

Enid Hankins	Arolygydd Cofnodol
Gill Sims	Arolygydd Tîm
Penny Lewis	Arolygydd Tîm
Angharad Reed	Arolygydd Tîm
Liam Kealy	Arolygydd Tîm
Megan Dauksta	Arolygydd Ychwanegol
Elane Roberts	Arolygydd Cymheiriaid
Sheila Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Lin Travis	Arolygydd Cymheiriaid
Chris Franks	Arolygydd Cymheiriaid
Mike Hughes	Enwebai'r darparwr

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**